OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2370 (Cy.205)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*6 Medi 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*2 Hydref 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 23(1)(l), 33 a 146 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 2 Hydref 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Uchafswm y grant ar gyfer cyfleusterau i'r anabl

2. Pan fo raid i awdurdod tai lleol gymeradwyo cais am grant ar gyfer cyfleusterau i'r anabl yn rhinwedd adran 23(1) o'r Ddeddf (grantiau: dibenion y mae'n rhaid rhoi grant ar eu cyfer neu ddibenion y caniateir rhoi grant ar eu cyfer), £36,000 yw'r uchafswm y caiff yr awdurdod ei dalu o ran y cais.

Dibenion y caniateir rhoi grant ar eu cyfer

3.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Pennod 1 o Ran 1 o'r Ddeddf, rhaid cymeradwyo cais am grant ar gyfer cyfleusterau i'r anabl pan fo'r cais yn gais at ddiben a bennir ym mharagraff (2).

(**1**) 1996 p. 53.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.